# HYBYSIAD PREIFATRWYDD
## *AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG O SENEDD IEUENCTID CYMRU*

Pwy ydyn ni?

Comisiwn y Senedd yw rheolwr data'r wybodaeth rwyt ti'n ei rhoi, a bydd yn sicrhau y caiff ei diogelu a'i defnyddio yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

Ein Manylion Cyswllt

Dylid anfon ymholiadau ynghylch ein defnydd o'th wybodaeth at y Swyddog Diogelu Data yn:

Tŷ Hywel,
Stryd Pierhead,
Bae Caerdydd
CF99 1SN

0300 200 6565

diogelu.data@senedd.cymru

# CONTENTS

1. SUT YDYM YN RHOI GWYBOD I TI AM SUT RYDYM YN DEFNYDDIO DY WYBODAETH? ..... 3

2. PAM RYDYN NI'N CASGLU DY WYBODAETH? ..... 5

3. PA WYBODAETH RYDYN NI'N EI CHASGLU AMDANAT TI? ..... 6

4. A FYDD Y WYBODAETH YN CAEL EI RHANNU Â THRYDYDD PARTÏON, NEU'N CAEL EI CHYHOEDDI? ..... 15

5. BLE Y BYDD Y WYBODAETH YN CAEL EI STORIO? ..... 17

6. EIN SAIL GYFREITHIOL AR GYFER DEFNYDDIO DY WYBODAETH ..... 18

7. DY HAWLIAU ..... 20

# 1. SUT YDYM YN RHOI GWYBOD I TI AM SUT RYDYM YN DEFNYDDIO DY WYBODAETH?

Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio sut mae Senedd y Comisiwn (**y Comisiwn**) yn casglu a defnyddio gwybodaeth bersonol mewn perthynas â Senedd Ieuenctid Cymru (**y Senedd Ieuenctid**), a'i haelodau'n arbennig (**ASIC**).

Yn yr hysbysiad hwn, mae **ni** yn cyfeirio at y Comisiwn. Y Comisiwn sy'n gyfrifol am dy wybodaeth bersonol. Mae **ti** neu **dy** yn cyfeirio at ASIC a / neu'r rhai sy'n eu cefnogi, megis gweithiwr ieuenctid yr ASIC.

Mae Hysbysiad Preifatrwydd Senedd Ieuenctid Cymru ar wahân yn egluro sut y bydd y Comisiwn ac ASIC yn prosesu gwybodaeth bersonol am unigolion sy'n ymwneud â'r Senedd Ieuenctid, naill ai drwy'r Comisiwn, neu drwy'r Aelodau unigol y Senedd Ieuenctid. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwnnw'n nodi rolau Aelodau'r Senedd Ieuenctid fel rheolyddion data ar y cyd â'r Comisiwn.

Mae'r pwyslais yn yr hysbysiad hwn yn wahanol. Byddwn yn defnyddio dy wybodaeth, fel ASIC, mewn ffordd sy'n unigryw i'th rôl fel rhan o'r Senedd Ieuenctid. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn amlinellu'n benodol sut y caiff dy wybodaeth ei phrosesu er mwyn i ni fedru trefnu, cefnogi a gweinyddu'r Senedd Ieuenctid. Ni fydd gwybodaeth bersonol y cyhoedd sy'n ymgysylltu â'r Senedd Ieuenctid yn cael ei phrosesu yn yr un modd.

Mae Hysbysiad Preifatrwydd y Senedd Ieuenctid yn rhoi manylion a fydd yn berthnasol i ASIC hefyd, yn dibynnu ar sut mae'r Aelodau hynny o'r Senedd Ieuenctid yn ymgysylltu â'r Comisiwn. Felly, i gael gwybod sut y byddwn yn prosesu dy wybodaeth bersonol o dan yr amgylchiadau canlynol, dylid darllen Hysbysiad Preifatrwydd Senedd Ieuenctid Cymru:

- Cymryd rhan yn etholiadau'r Senedd Ieuenctid:
- Tanysgrifio i'n cylchlythyrau;
- Llenwi ein harolygon;
- Ymgysylltu â ni ar y cyfryngau cymdeithasol;
- Defnyddio ein gwefan;
- Defnyddio fforymau ar-lein;

- Cymryd rhan mewn digwyddiadau a grwpiau ffocws y Senedd Ieuenctid.

Efallai y bydd adegau hefyd pan mae'n ofynnol i ni greu hysbysiad preifatrwydd pwrpasol, neu ddarparu gwybodaeth breifatrwydd ychwanegol sy'n ategu'r hysbysiad preifatrwydd hwn. Pan fydd hynny'n digwydd, byddwn yn ei gwneud yn glir i ti pa wybodaeth sy'n berthnasol o dan yr amgylchiadau hynny cyn prosesu dy wybodaeth bersonol at y diben hwnnw.

# 2. PAM RYDYN NI'N CASGLU DY WYBDOAETH?

Rydym yn casglu'r wybodaeth hon er mwyn:

- Cefnogi ymdrechion y Comisiwn i ddangos y gwaith rydyn ni'n ei wneud i hyrwyddo gwaith y Senedd Ieuenctid a/neu'r Senedd ac i ymgysylltu â phobl Cymru;
- Sicrhau bod gweithgareddau'r Senedd Ieuenctid yn cael eu cynnal mewn ffordd sydd mor hygyrch â phosibl i ASIC a'r rhai sy'n dymuno cymryd rhan yng ngwaith y Senedd Ieuenctid;
- Diogelu ASIC a'r rhai sy'n dymuno cymryd rhan yng ngwaith y Senedd Ieuenctid;
- Darparu'r weinyddiaeth gyffredinol sydd ei hangen i'r Senedd Ieuenctid weithredu'n effeithlon.

# 3. PA WYBODAETH RYDYN NI'N EI CHASGLU AMDANAT TI?

Darllen yr hysbysiad hwn yn ofalus i ddeall sut y byddwn yn defnyddio dy wybodaeth bersonol fel Aelod o'r Senedd Ieuenctid. Os oes gennyt unrhyw gwestiynau neu ymholiadau ynglŷn â'r hysbysiad hwn, galli gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Comisiwn.

Cofia mai dim ond gwybodaeth bersonol a gaiff ei chasglu a'i defnyddio gan y Comisiwn sydd o dan sylw yn yr hysbysiad hwn. Mae ein gwefan yn cynnwys lincs i wefannau ein sefydliadau partner, a allai ddefnyddio dy wybodaeth bersonol at eu dibenion eu hunain. Edrych ar bolisi preifatrwydd y sefydliad perthnasol i ddeall sut y bydd yn defnyddio dy wybodaeth.

## A. CYMRYD RHAN YNG NGWEITHGAREDDAU'R SENEDD IEUENCTID A GWEINYDDIAETH GYFFREDINOL

Fel rhan o'n gwaith, mae'n bosibl y byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol amdanat ti mewn amrywiaeth o amgylchiadau gwahanol. Mae'r wybodaeth y gallwn ei chasglu a'i defnyddio yn cynnwys:

- Dy enw, dy gyfeiriad a dy fanylion cyswllt
- Manylion cyswllt unrhyw bobl berthnasol mewn unrhyw sefydliad partner;
- Dy fanylion cyswllt mewn argyfwng
- Y rhyw a neilltuwyd i ti ar dy enedigaeth, hunaniaeth rhyw a dyddiad geni;
- Dy wybodaeth feddygol ac iechyd;
- Gwybodaeth am bryderon iechyd a diogelwch, llesiant, anghenion neu ddymuniadau;
- Unrhyw wybodaeth bersonol arall y byddi yn ei rhannu â ni am dy ffordd o fyw neu amgylchiadau cymdeithasol

- Unrhyw wybodaeth arall y byddi yn ei rhoi i ni i'n helpu i drefnu mesurau neu gymorth penodol fydd eu hangen arnat;
- Caniatâd i ti gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Senedd Ieuenctid;
- Dy bresenoldeb yng ngweithgareddau'r Senedd Ieuenctid y byddwn yn eu trefnu;
- Cofnod o unrhyw hyfforddiant y byddwn ni'n eu trefnu i ti;
- Cofnod o unrhyw archwiliadau a gaiff eu cynnal ar hap, fel y rhai i sicrhau bod y polisi diogelu data'n cael ei ddilyn;
- Cofnod o unrhyw ddamwain y byddi'n rhan ohoni;
- Dy ohebiaeth electronig â ni, er enghraifft drwy'r e-bost a Microsoft Teams;
- Gwybodaeth am dy ddefnydd o'n systemau cyfathrebu;
- Dy fanylion banc, os byddi'n hawlio treuliau;
- Cofnodion a gwybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw gŵyn a gawn ni amdanat ti neu unrhyw gŵyn a wnei di ac unrhyw gamau a gymerir. Bydd gwybodaeth am unrhyw broses gwyno neu ddisgyblu yn cael ei chadw drwy gydol tymor y Senedd Ieuenctid hon, sydd i ddod i ben ar hyn o bryd ym mis Mawrth 2024;
- Unrhyw wybodaeth berthnasol sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol cyfredol neu sy'n aros, rhybuddion, neu os cefaist dy wneud yn destun gorchymyn tebyg am drosedd berthnasol.

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chadw ar weinyddion TGCh diogel y Senedd. Byddwn yn cadw eich manylion cyswllt hyd nes y byddwch yn gofyn i ni beidio â gwneud hynny. Gallwch wneud hyn drwy e-bostio helo@seneddieuenctid.cymru. Rhowch wybod i ni hefyd os bydd eich manylion cyswllt yn newid.

Efallai y byddwn yn gofyn am dy ganiatâd i gadw dy enw a manylion cyswllt ar ôl y cyfnod cadw hwn fel y gallwn gysylltu â thi ar ôl gorffen dy dymor fel Aelod o'r Senedd Ieuenctid. Er enghraifft, efallai yr hoffem gysylltu â thi i ofyn i ti gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r Senedd Ieuenctid neu'r Senedd a fyddai'n elwa o bresenoldeb cyn-Aelod o'r Senedd Ieuenctid. Byddwn ond yn cadw'r wybodaeth hon y tu hwnt i'r cyfnod cadw gwreiddiol os byddi di'n rhoi caniatâd i ni wneud hynny.

## B. CCTV

Mae teledu cylch cyfyng yn weithredol gennym ar draws Ystâd y Senedd er mwyn: hwyluso diogelwch pawb sy'n defnyddio'r adeiladau, gan gynnwys gweithwyr, contractwyr, ymwelwyr ac aelodau'r cyhoedd; amddiffyn adeiladau'r Senedd a'u gwneud yn ddiogel: i atal, canfod a nodi gweithgarwch troseddol neu gamymddygiad; darganfod ac erlyn troseddwyr; ac ar gyfer ymchwiliadau. Mae teledu cylch cyfyng ar waith ar safleoedd, meysydd parcio ac ardaloedd cyhoeddus y Senedd (sy'n cynnwys ardaloedd y tu allan i Ystâd y Senedd). Caiff delweddau eu cadw fel mater o drefn am 31 diwrnod ar y mwyaf. Mae mynediad i'n SMS (system rheoli diogelwch), yn cynnwys ein teledu cylch cyfyng, yn cael ei reoli'n gadarn a dim ond i staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol, sydd wedi'u fetio a'u hawdurdodi, y caniateir mynediad. Caiff y defnydd o'r system teledu cylch cyfyng ei lywodraethu gan bolisi teledu cylch cyfyng a chanllawiau defnyddiwr.

## C. CYFARFODYDD PREIFAT AR-LEIN GAN DDEFNYDDIO MICROSOFT TEAMS A ZOOM

Efallai y byddwn yn defnyddio offer meddalwedd trydydd parti fel Microsoft Teams neu Zoom i hwyluso trafodaethau gyda thi ac Aelodau eraill y Senedd Ieuenctid. Efallai y bydd yn rhaid i ni ddefnyddio dy fanylion personol er mwyn trefnu trafodaethau gan ddefnyddio'r offer hyn.

Ar adegau, byddwn yn defnyddio'r offer meddalwedd hyn i gynnal trafodaethau preifat gyda thi, na fydd yn ymddangos yn gyhoeddus. Yn yr achosion hynny, bydd cyfarfodydd ar-lein yn cael eu gweinyddu gan staff y Comisiwn. Dim ond y rhai a wahoddir gan staff y Comisiwn fydd yn gallu cyfrannu ar y llwyfannau hyn. Gall y rhai a wahoddir gynnwys:

- Aelodau'r Senedd Ieuenctid;
- Staff dethol o'r Comisiwn sy'n cefnogi'r Senedd Ieuenctid;
- Unrhyw gynrychiolwyr perthnasol o Sefydliadau Partner y Senedd Ieuenctid, neu weithwyr cymorth sy'n helpu Aelodau'r Senedd Ieuenctid i ddefnyddio'r llwyfan;
- Aelod o'r Senedd.

Bydd yr ymatebion hyn yn breifat bob amser, a byddwn yn monitro sut y bydd pob Aelod o'r Senedd Ieuenctid yn defnyddio'r llwyfan. Efallai y byddwn yn recordio

cyfarfodydd preifat er mwyn cymryd nodiadau a byddwn yn dweud wrthyt os oes recordiad yn cael ei wneud. Gall y recordiadau hyn gynnwys dy wybodaeth bersonol. Os bydd recordiad yn cael ei wneud, bydd yn cael ei storio ar rwydwaith TGCh mewnol diogel y Senedd, ni fyddwn ni'n ei rannu'n gyhoeddus, a bydd y recordiad yn cael ei ddileu 12 mis ar ôl i'r sesiwn ddigwydd.

## CH. CYFARFODYDD CYHOEDDUS AR-LEIN GAN DDEFNYDDIO MICROSOFT TEAMS A ZOOM

Ar adegau eraill efallai y byddwn yn defnyddio offer meddalwedd trydydd parti fel Microsoft Teams neu Zoom i gynnal cyfarfodydd sy'n dy gynnwys di ac eraill sy'n cael eu ffrydio'n fyw, ac yn cael eu recordio. Yn yr achosion hynny, efallai y caiff y digwyddiad ei ddarlledu ar ein sianeli fel YouTube, SeneddTV, neu sianeli cyfryngau cymdeithasol eraill, sef lle bydd 'mynychwyr' yn gwylio'r cyfarfod, neu'r recordiad a osodir ar y sianeli hynny. Efallai y bydd yn ofynnol i ti rannu manylion personol er mwyn i swyddogion y Senedd allu trefnu'r cyfarfod, ac efallai y bydd yn ofynnol i ti drefnu a/neu ddefnyddio dy gyfrifon personol dy hun ar lwyfan trydydd parti, fel Zoom. Bydd cynnwys cyfarfodydd ar-lein sy'n cael eu ffrydio'n fyw neu eu recordio ar gyfer y cyhoedd yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw gynnwys a gyhoeddir gennym i'r cyhoedd yn aros yno am gyfnod amhenodol a gall trydydd partïon ei ddefnyddio at eu dibenion eu hunain. Mae'r Senedd yn adolygu cynnwys digidol a gesglir yn rheolaidd, ac ni fydd yn cadw lluniau a fideos sy'n annhebygol o fod o unrhyw werth gweithredol yn y dyfodol.

Gallai Zoom storio data personol yn yr Unol Daleithiau, yn ogystal â gwledydd eraill y tu allan i'r AEE, y Swistir neu'r DU. Lle mae hyn yn wir, mae Zoom yn sicrhau bod y trosglwyddiadau hyn yn cael eu rheoli gan gymalau cytundebol safonol. Am ragor o wybodaeth am sut y bydd Zoom yn defnyddio dy wybodaeth, gellir darllen ei bolisi preifatrwydd yma.

Darperir datganiad preifatrwydd Microsoft ymhellach i lawr yr hysbysiad hwn.

## D. FFOTOGRAFFIAETH, FFILMIO A CHYNNWYS DIGIDOL

Byddwn yn casglu lluniau a fideos yn ystod digwyddiadau'r Senedd Ieuenctid, cyfarfodydd y Senedd Ieuenctid a gweithgarwch arall a drefnir gan y Comisiwn sy'n cynnwys y Senedd Ieuenctid, sy'n rhan o'n hymdrechion i ddangos y gwaith a wnawn. Gallai'r delweddau a'r fideos hyn gael eu defnyddio i hyrwyddo gwaith y Senedd Ieuenctid a/neu'r Senedd ac i ymgysylltu â phobl Cymru.

Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi delweddau a chynnwys fideos ar wefan y Senedd Ieuenctid, ar wefan y Senedd, ar sianeli cyfryngau cymdeithasol, mewn deunyddiau print, ac mae'n bosibl y cânt eu dangos i Aelodau'r Senedd, staff y Comisiwn a thrydydd parti, fel y cyfryngau.

Gellir cadw rhai lluniau a fideos (yn enwedig os oes gwerth hanesyddol neu werth busnes parhaus iddynt) am gyfnod amhenodol, a bydd y cynnwys a gaiff ei gyhoeddi yn y parth cyhoeddus yn aros yno. Bydd y Comisiwn yn adolygu'r cynnwys digidol a gaiff ei gasglu, a hynny'n rheolaidd, ac ni fydd yn cadw lluniau a fideos sy'n annhebygol o fod o unrhyw werth gweithredol yn y dyfodol.

Bydd pob cyfarfod o'r 60 ASIC sy'n cael ei gynnal yn Siambr y Senedd yn cael ei ffilmio fel cofnod ffurfiol o'r cyfarfodydd hyn. Bydd y recordiadau hyn yn cael eu golygu a'u cyhoeddi ar-lein drwy wefan y Senedd Ieuenctid, Senedd.tv a drwy gyfrwng lincs i sianeli cyfryngau cymdeithasol y Senedd Ieuenctid a'r Comisiwn o fewn mis ar ôl y cyfarfod. Byddant yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol.

Wrth gasglu delweddau a fideos ohonot, mae'n bosibl y byddwn yn dy recordio'n sôn am faterion sensitif, fel dy rywioldeb, dy gredoau crefyddol neu brofiad o gyflyrau iechyd, neu'n cymryd lluniau ohonot a all gynnwys gwybodaeth sensitif (er enghraifft, lluniau ohonot yn gafael mewn baneri neu sloganau sy'n dangos dy gredoau).

Os nad wyt am ymddangos mewn lluniau neu fideos sy'n dangos yr hyn sy'n cymryd lle mewn digwyddiad penodol neu yn y recordiad ffurfiol o gyfarfodydd llawn, neu os hoffet ti ofyn cwestiwn am y ffordd y defnyddir dy wybodaeth, tyrd i siarad ag aelod o staff y Comisiwn cyn y digwyddiad, neu yn ystod y digwyddiad, neu anfon e-bost i helo@seneddieuenctid.cymru.

## DD. LLENWI EIN HAROLYGON

Pan fyddwn ni'n defnyddio arolygon ar-lein i gael dy adborth ar ein gwasanaethau, neu dy farn am faterion y mae Senedd Ieuenctid Cymru neu'r Senedd yn craffu arnyn nhw, rydym yn defnyddio Ffurflenni Microsoft.

Bydd pob aelod o staff y Comisiwn sy'n gweithio ar y prosiect o dan sylw yn gweld yr ymatebion. Ar rai achlysuron, bydd yr ymatebion hyn yn cael eu defnyddio'n fewnol gan y Comisiwn yn unig, er enghraifft i helpu i wella ein gwasanaethau. Ond weithiau byddwn yn defnyddio'r adborth i greu adroddiad cryno drwy amlinellu canfyddiadau'r arolwg a gaiff ei rannu â staff, ac ar adegau gydag Aelodau o'r Senedd. Efallai y caiff yr adroddiad cryno ei gyhoeddi ar ein gwefan a'i hyrwyddo ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, ac efallai y bydd yn ymddangos mewn adroddiadau perthnasol. Gall hyn gynnwys dyfyniadau uniongyrchol o ymatebion,

ond byddwn yn sicrhau na ddatgelir dim am bwy yw'r ymatebwyr. Bydd y wybodaeth hon yn parhau'n gyhoeddus am gyfnod amhenodol.

Bydd ymatebion i'r arolwg yn cael eu dileu unwaith y bydd unrhyw broses adrodd ddilynol wedi'i chwblhau a, beth bynnag, ni fyddwn yn cadw unrhyw ymatebion i'r arolwg ar ôl diwedd tymor y Senedd Ieuenctid hon (sydd i ddod i ben ym mis Mawrth 2024).

Mae manylion am sut y bydd Microsoft yn defnyddio dy wybodaeth ar gael ar ei wefan.

- Manylion am bolisi preifatrwydd Microsoft: https://privacy.microsoft.com/cy-gb/privacystatement.

Bydd arolygon fel arfer yn cael eu gweinyddu gan y Comisiwn ond os bydd angen i ni ddefnyddio trydydd parti i weithredu arolwg ar ein rhan, bydd gwybodaeth breifatrwydd ychwanegol yn cael ei darparu i ti sy'n esbonio sut y bydd dy wybodaeth yn cael ei defnyddio at ddibenion yr arolwg hwnnw.

## E. CWYNION A MATERION YMDDYGIAD

Mae ein Polisi Cwynion a Phryder am Ymddygiad yn nodi sut mae'r Comisiwn yn ymdrin â phryderon am ymddygiad Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru a chwynion a wneir yn eu herbyn. Os hoffech wneud cwyn am Aelod o Senedd Ieuenctid cymru, gallwch gysylltu â Chomisiwn y Senedd drwy e-bost yn helo@seneddieuenctid.cymru, neu drwy ffonio 0300 200 6565.

Er mwyn symud y gŵyn neu'r pryder am ymddygiad ymlaen, bydd angen inni brosesu rhywfaint o'ch gwybodaeth bersonol. Bydd hyn yn cynnwys eich enw, manylion cyswllt, ac unrhyw ddeunyddiau a ddarperir gennych sy'n ymwneud â'r gŵyn ei hun. Byddwn hefyd yn prosesu unrhyw nodiadau ysgrifenedig neu electronig o gyfarfodydd, ac unrhyw ohebiaeth arall sy'n ymwneud â'r gŵyn ac unrhyw ohebiaeth sy'n manylu ar ganlyniad unrhyw ymchwiliad (a elwir yn “adroddiad canlyniadau”). Mae'n bosibl y bydd y rhain yn cynnwys eich data personol a byddant yn cael eu cadw, yn dibynnu ar ganlyniad ymchwiliad perthnasol, fel y nodir isod.

Os caiff y gŵyn neu'r pryder am ymddygiad ei ollwng, bydd yr adroddiad canlyniadau (a fydd, ynghyd â manylu ar ganlyniad unrhyw ymchwiliad, yn amlinellu manylion y broses a gynhaliwyd ac yn crynhoi gwybodaeth allweddol) yn cael ei gadw tan ar ôl etholiad canlynol Senedd Ieuenctid Cymru. Bydd yr holl ddeunydd arall a gesglir at ddibenion ystyried y gŵyn neu'r pryder am ymddygiad yn cael ei ddileu ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben ac i'r adroddiad canlyniad gael ei gyhoeddi.

Os yw'r ymchwiliad yn pennu bod angen camau datblygu a/neu sancsiynau ffurfiol (fel rhybudd ysgrifenedig neu ataliad), bydd yr adroddiad canlyniadau'n cael ei gadw tan ar ôl etholiad canlynol Senedd Ieuenctid Cymru (oni bai yr ailetholir yr Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru a oedd yn destun y gŵyn, gweler isod). Bydd yr holl ddeunydd arall a gesglir at ddibenion ystyried y gŵyn neu'r pryder am ymddygiad yn cael ei ddileu ar ddiwedd Tymor y Senedd Ieuenctid y derbyniwyd y gŵyn neu'r pryder am ymddygiad.

Os yw Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru sydd wedi bod yn destun cŵyn neu bryder am ymddygiad sy'n arwain at gamau datblygu a/neu sancsiynau ffurfiol, ac yr ailetholir yr unigolyn dan sylw yn Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru yn dilyn yr Etholiad Senedd Ieuenctid dilynol, bydd yr adroddiad canlyniadau o dymor cyfredol Senedd Ieuenctid Cymru yn cael ei gadw tan ddiwedd tymor nesaf Senedd Ieuenctid Cymru. Fel uchod, bydd yr holl ddeunydd arall a gesglir at ddibenion ystyried y gŵyn neu'r pryder am ymddygiad yn cael ei ddileu ar ddiwedd Tymor y Senedd Ieuenctid y derbyniwyd y gŵyn neu'r pryder am ymddygiad.

Os yw'r ymchwiliad yn pennu y dylid diswyddo'r Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru, bydd yr adroddiad canlyniadau'n cael ei gadw nes y bydd yr Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru wedi cyrraedd oedran sy'n golygu nad yw bellach yn gymwys i sefyll mewn Etholiad arall i Senedd Ieuenctid Cymru. Bydd yr holl ddeunydd arall a gesglir at ddibenion ystyried y gŵyn neu'r pryder am ymddygiad yn cael ei brosesu fel a ganlyn:

- Os na fydd yr Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru yn arfer ei hawl i apelio, caiff y deunydd arall ei ddileu ar ôl i'r cyfnod o 14 diwrnod y gall yr Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru arfer yr hawl hwn, ddod i ben;

- Os bydd yr Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru yn arfer ei hawl i apelio a bod y diswyddiad yn cael ei gadarnhau, bydd y deunydd arall yn cael ei ddileu ar ôl i'r broses apelio ddod i ben;

- Os bydd yr Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru yn arfer ei hawl i apelio a bod y diswyddiad yn cael ei wyrdroi, boed hynny drwy wrthod y gŵyn neu'r pryder am ymddygiad yn ei gyfanrwydd neu drwy roi cosb lai yn ei le, bydd y deunydd arall yn cael ei gadw neu ei ddileu yn ddibynnol ar ganlyniad yr apêl. Gweler uchod am y cyfnod cadw priodol.

Bydd mynediad at wybodaeth sy'n ymwneud â phryder neu gŵyn am ymddygiad, gan gynnwys data personol, o fewn y Comisiwn yn cael ei gyfyngu i'r staff hynny yn y Comisiwn sy'n angenrheidiol i symud y gŵyn ymlaen. Yn amodol ar natur y gŵyn neu'r pryder am ymddygiad, gall hyn gynnwys tîm Gweithrediadau Adnoddau Dynol y Comisiwn neu'r Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Diogelu.

Fel arfer, bydd cwynion yn cael eu trin yn gyfrinachol oni bai ei bod yn angenrheidiol inni rannu data personol gyda thrydydd parti (gweler isod). Ni fydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r canlyniadau. Defnyddir canlyniadau'n fewnol o fewn y Comisiwn i ystyried unrhyw gamau y gall fod eu hangen yn dilyn ein hymchwiliad.

Efallai y bydd achlysuron pan fydd angen rhannu gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys data personol, gyda thrydydd parti. Gall hyn gynnwys yr heddlu neu asiantaethau amddiffyn plant, er enghraifft, yn enwedig pan fydd angen inni gynnwys y trydydd partïon hynny er mwyn ein cynorthwyo ag unrhyw ymchwiliad a gynhelir gennym ni, neu pan fo'n ofynnol inni rannu gwybodaeth â nhw fel y gallent gynnal eu hymchwiliad eu hunain, er enghraifft yn achos ymchwiliad troseddol. Efallai y bydd yn ofynnol i ni, yn ôl y gyfraith, rannu gwybodaeth benodol o bryd i'w gilydd.

Gall fod rhesymau lles, diogelu neu weithdrefnol hefyd sy'n golygu bod angen inni rannu data personol gyda thrydydd parti, er enghraifft lle mae perygl i ddiogelwch neu y bydd angen hysbysu partïon perthnasol yn ystod y broses. Gall partïon perthnasol gynnwys sefydliadau partner sy'n cefnogi Aelod(au) penodol o Senedd Ieuenctid Cymru, yn ogystal â'r rhiant(rhieni) / gwarcheidwad (gwarcheidiaid) perthnasol os yw'r Aelod o dan 18 oed ac unrhyw eiriolwr trydydd parti sy'n cefnogi'r Aelod o'r Senedd Ieuenctid drwy'r broses. Byddwn ond yn rhannu gwybodaeth bersonol sy'n angenrheidiol a lle mae gennym sail gyfreithlon dros wneud hynny.

## F. CEISIADAU GAN DRYDYDD PARTÏON

O bryd i'w gilydd cawn geisiadau gan drydydd partïon, megis sefydliadau'r cyfryngau, grwpiau buddiant, elusennau ac yn y blaen i gysylltu ag ASIC. Ni fyddwn yn rhannu dy fanylion gydag unrhyw drydydd parti oni bai dy fod wedi rhoi dy ganiatâd i ni wneud hynny. Yn yr achosion hynny, byddwn yn cysylltu â thi, yn rhoi gwybodaeth i ti am natur y cais gan y trydydd parti, ac yn gofyn a wyt yn hapus i ni rannu dy fanylion cyswllt â nhw.

## FF.FFURFLEN MONITRO CYDRADDOLDEB SENEDD IEUENCTID CYMRU

Rhan allweddol o waith Senedd Ieuenctid Cymru yw rhoi llais i bobl ifanc o amrywiaeth eang o gefndiroedd a chymunedau. Er mwyn deall pa grwpiau o bobl ifanc sy'n cael eu cynrychioli yn nhymhorau gwahanol y Senedd Ieuenctid, rydym yn casglu gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth gan yr aelodau drwy ffurflen monitro cydraddoldeb, sy'n gofyn i ti roi gwybodaeth am bethau fel dy

gefndir, ethnigrwydd, crefydd, sgiliau iaith Gymraeg, ac os oes gennyt ti unrhyw anableddau.

Mae ychydig o'r wybodaeth rydym ni'n gofyn amdani yn ymwneud â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn ogystal â ffactorau eraill y mae gwaith ymchwil wedi dangos y gallant gael effaith ar ddyfodol pobl ifanc.

Bydd aelodau'r Senedd Ieuenctid yn cael cais i lenwi'r ffurflen, a fydd yn cael ei rhannu fel arolwg ar-lein ar Microsoft Forms. Mae llenwi'r arolwg yn wirfoddol ac nid yw'n effeithio ar dy statws fel aelod o Senedd Ieuenctid Cymru. Bydd modd i ti hefyd lenwi rhan o'r arolwg os nad wyt ti eisiau ateb rhai cwestiynau, ond rhaid i bob aelod ateb y cwestiwn am oedran.

Os byddi di'n dewis llenwi'r ffurflen, rhaid i bob aelod nodi a yw'n 12 oed neu'n iau, neu'n 13 oed neu'n hŷn. Y rheswm am hyn yw bod rhai cwestiynau'n cael eu gadael allan os bydd ymatebydd yn nodi ei fod yn 12 oed neu'n iau, yn enwedig o ran rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Ni fydd y data personol hynny'n cael eu casglu gan aelodau sy'n 12 oed neu'n iau.

Bydd nifer fach o staff y Comisiwn sy'n cefnogi'r Senedd Ieuenctid yn gweld ac yn dadansoddi'r ymatebion i'r arolwg. Gan ddefnyddio dulliau diogelu data, dim ond yr aelodau hynny o staff fydd yn cael gweld y data crai. Mae rhai manylion personol na fyddwn ni'n gofyn amdanynt, fel dy enw. Ond, oherwydd y math o wybodaeth sy'n cael ei chasglu am gydraddoldeb ac amrywiaeth, mae'n bosibl y bydd cyfuniad o'r ymatebion fyddi di'n eu rhoi yn datgelu pwy wyt ti.

Ar ôl i'r arolwg gael ei ddadansoddi, bydd adroddiad cryno byr yn cael ei lunio i esbonio canfyddiadau'r arolwg, a bydd yn cael ei rannu â staff eraill y Comisiwn. Nid ydym yn bwriadu cynnwys data personol yn yr adroddiad. Efallai y byddwn ni'n rhannu'r adroddiad cryno, neu ddyfyniadau ohono, ar wefan y Senedd, ar y cyfryngau cymdeithasol, a chyda sefydliadau allanol yn y sector ieuenctid, ond dim ond os nad oes unrhyw berygl o ddatgelu manylion personol am un o'r aelodau. Ni fydd unrhyw ddata personol yn cael eu rhannu â thrydydd partïon ac ni fyddant ar gael yn gyhoeddus.

Bydd ymatebion i'r arolwg yn cael eu dileu chwe mis i'r dyddiad y daw'r arolwg i ben. Os nad oes perygl bod yr adroddiad cryno yn datgelu manylion personol am un o'r aelodau, a'i fod yn cael ei gyhoeddi ar y wefan, bydd yn parhau i fod ar gael yn gyhoeddus am gyfnod amhenodol.

Bydd y Comisiwn yn defnyddio'r wybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth y mae'n ei chasglu yn y ffyrdd yma:

- Deall amrywiaeth a chynrychiolaeth gwahanol grwpiau o bobl ifanc yn y Senedd Ieuenctid.

- Nodi tueddiadau ar draws gwahanol dymhorau o’r Senedd Ieuenctid.
- Dylanwadu ar strategaethau ymgysylltu’r Comisiwn yn y dyfodol drwy nodi pa grwpiau o bobl ifanc y mae angen ymgysylltu’n fwy â nhw i sicrhau bod Seneddau Ieuenctid yn cynrychioli’r boblogaeth yn fwy cytbwys yn y dyfodol.

# 4. A FYDD Y WYBODAETH YN CAEL EI RHANNU Â THRYDYDD PARTÏON, NEU'N CAEL EI CHYHOEDDI?

Mae diogelwch gwybodaeth bersonol yn bwysig iawn i ni ac rydym wedi rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod dy wybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel. Fel y nodir yn yr hysbysiad hwn, mae'n bosibl y byddwn yn rhannu dy wybodaeth ag eraill, gan gynnwys:

- Aelodau eraill y Senedd Ieuenctid;
- Aelod o'r Senedd;
- Sefydliadau partner allanol (fel yr Urdd, Youth Cymru, Barnardo's – mae rhestr lawn o'r sefydliadau partner ar gael yma [https://www.seneddieuenctid.cymru/partner](https://www.seneddieuenctid.cymru/partner)
- Sefydliadau neu asiantaethau allanol lle mae hynny'n angenrheidiol er mwyn dy gefnogi;
- Ein cynghorwyr proffesiynol, ein harchwilwyr a'n hyswirwyr ein hunain

Mae'n bosibl y bydd angen i ni rannu dy wybodaeth bersonol â chyrff eraill, fel y llysoedd ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith, am resymau cyfreithiol.

Fel yr amlinellir uchod, efallai y byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i rywfaint o'th wybodaeth bersonol ar wefan y Senedd Ieuenctid, gwefan y Senedd, ar sianeli cyfryngau cymdeithasol ac mewn deunyddiau print. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth bersonol a gynhwysir mewn recordiadau neu ddarllediadau byw o gyfarfodydd cyhoeddus, a delweddau a lluniau eraill a gyhoeddir.

Mae'r Comisiwn yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth. Os daw cais i law o dan y ddeddfwriaeth hon, mae'n bosibl y bydd angen i ni ddatgelu rhywfaint o'r wybodaeth bersonol neu'r holl wybodaeth bersonol sydd gennym amdanat. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a gafodd ei dileu'n flaenorol gan y Comisiwn at ddibenion cyhoeddi. Dim ond os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith y byddwn yn gwneud hynny.

Nid yw'r data personol a gesglir gan aelodau o'r Senedd Ieuenctid fel rhan o waith monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu rhannu â thrydydd partïon ac nid yw'r data'n cael eu rhannu'n gyhoeddus.

# 5. BLE Y BYDD Y WYBODAETH YN CAEL EI STORIO?

Bydd y wybodaeth yn cael ei storio'n ddiogel ar ein systemau TGCh, sy'n cynnwys gwasanaethau cwmwl trydydd parti a ddarperir gan Microsoft. Mae unrhyw drosglwyddo data gan Microsoft y tu allan i'r AEE yn dod o dan gymalau cytundebol lle mae Microsoft yn sicrhau bod data personol yn cael eu trin yn unol â deddfwriaeth ddomestig. I gael rhagor o wybodaeth am sut y bydd Microsoft yn defnyddio dy wybodaeth, gellir darllen datganiad preifatrwydd y cwmni yma.

Gall ein darparwyr gwasanaeth storio dy wybodaeth bersonol y tu allan i'r DU neu'r tu allan i Ardal Economaidd Ewrop (sef gwledydd yn yr Undeb Ewropeaidd a hefyd Gwlad yr Iâ, Norwy a Liechtenstein). Yn achos pob darparwr rydym yn ei benodi, mae gennym fesurau ar waith i sicrhau bod dy wybodaeth bersonol yn cael ei thrin yn ddiogel os caiff ei throsglwyddo i'r tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Byddwn yn asesu unrhyw geisiadau trydydd parti a ddefnyddiwn i sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion hyn.

Er mwyn ymgysylltu â'r cyhoedd, byddwn hefyd yn defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau cyfathrebu eraill, ac mae rhai ohonynt wedi'u lleoli y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Os byddi'n rhannu gwybodaeth bersonol â ni, mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio'r gwasanaethau hyn i gadw neu ddefnyddio dy wybodaeth bersonol.

# 6. EIN SAIL GYFREITHIOL AR GYFER DEFNYDDIO DY WYBODAETH

Mae cyfraith diogelu data yn nodi seiliau cyfreithiol amrywiol sy'n caniatáu i ni gasglu, cadw a defnyddio dy wybodaeth bersonol. Rydym yn dibynnu ar y seiliau cyfreithiol a ganlyn wrth brosesu dy ddata personol:

- Pan fyddwn yn defnyddio' dy wybodaeth bersonol i gyflawni ein swyddogaethau cyhoeddus. Mae hyn yn rhan o swyddogaeth y Comisiwn i gefnogi a hyrwyddo ymgysylltiad democrataidd yng Nghymru. Bydd angen i ni gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol er mwyn cyflawni'r swyddogaeth hon. Enghraifft o hyn yw pan fyddwn yn casglu ac yn defnyddio dy wybodaeth bersonol i sicrhau y gallwn wneud y gwaith gweinyddol angenrheidiol i hwyluso dy rôl fel ASIC;

- Weithiau byddwn yn casglu ac yn defnyddio dy wybodaeth bersonol ar sail dy gytundeb. Byddwn bob amser yn dweud wrthyt os mai dyma'r sefyllfa ac yn gofyn i ti gytuno cyn i ni gasglu dy wybodaeth. Enghraifft o hyn yw pan rydym yn dibynnu ar dy ganiatâd i drosglwyddo dy fanylion cyswllt i sefydliadau cyfryngau trydydd parti;

- Pan fo dyletswydd arnom yn ôl y gyfraith i brosesu dy wybodaeth bersonol. Enghraifft o hyn yw pan fydd angen i ni gasglu gwybodaeth amdanat pan fyddi'n mynd i ddigwyddiad, er mwyn sicrhau dy ddiogelwch.

- Pan fyddwn o'r farn bod buddiant cyfreithlon cymhellol (sydd y tu allan i'n swyddogaethau arferol) sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni brosesu dy wybodaeth bersonol. Enghraifft o hyn yw pan rydym yn casglu gwybodaeth gennyt ac yn ei rhannu ag eraill er mwyn hyrwyddo dy les neu dy ddiogelwch;

- Pan rydym o'r farn bod y prosesu er budd hanfodol i ti, er enghraifft, yn achos argyfwng meddygol.

- Pan fyddwn yn defnyddio dy wybodaeth bersonol i gyflawni ein swyddogaethau cyhoeddus. Mae hyn yn rhan o swyddogaeth y Comisiwn i gefnogi a hyrwyddo ymgysylltiad democrataidd yng Nghymru. Bydd angen i ni gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol er mwyn cyflawni'r swyddogaeth hon. Enghraifft o hyn yw pan fyddwn yn casglu ac yn defnyddio dy wybodaeth bersonol i sicrhau y gallwn wneud y gwaith gweinyddol angenrheidiol i hwyluso dy rôl fel aelod o Senedd Ieuenctid Cymru. Rhaid i'r Comisiwn hefyd wneud trefniadau priodol o ran cadarnhau bod ei swyddogaethau'n cael eu harfer gan roi sylw i'r egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb. Felly, mae'r Comisiwn yn casglu rhywfaint o wybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth i ddylanwadu ar ei strategaethau ymgysylltu ar gyfer y Senedd Ieuenctid ac i sicrhau ei fod yn gallu ymgysylltu'n effeithiol â phobl ifanc yng Nghymru sy'n cynrychioli pob math o nodweddion ac yn rhoi cyfle cyfartal i bawb.

Mae'r gyfraith diogelu data yn cydnabod rhai "categorïau arbennig" o wybodaeth bersonol. Diffinnir y rhain fel gwybodaeth sy'n datgelu tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth o undeb llafur, gwybodaeth genetig a biometrig i adnabod unigolyn, gwybodaeth am iechyd, a gwybodaeth am fywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol unigolyn.

Mae'r categorïau arbennig hyn yn cael eu hystyried yn arbennig o sensitif. Byddwn yn casglu ac yn defnyddio'r categorïau hyn o wybodaeth dim ond os byddwn yn credu bod hynny'n angenrheidiol ac er budd sylweddol i'r cyhoedd; os byddi wedi rhoi caniatâd penodol i ni wneud hynny; os byddi wedi gwneud y wybodaeth honno'n gyhoeddus; neu pan fydd angen ei phrosesu er mwyn diogelu dy fuddiannau hanfodol ac nad wyt yn gallu rhoi caniatâd. Un enghraifft o ddefnyddio'r math hwn o wybodaeth yw pan fyddwn yn casglu gwybodaeth am anabledd fel y gallwn dy helpu i gymryd rhan yn nigwyddiadau neu weithgareddau'r Senedd Ieuenctid.

Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i ni hefyd brosesu gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud ag euogfarnau a throseddau. Os yw hynny'n codi, byddwn yn prosesu'r wybodaeth honno ar y sail bod hynny'n angenrheidiol am resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd, a ystyrir ar y cyd â pharagraff 6 o Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018.

# 7. DY HAWLIAU

Mae gennyt nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol y byddwn yn ei chadw. Mae'r hawliau sy'n berthnasol yn dibynnu ar y seiliau cyfreithiol yr ydym yn dibynnu arnynt i ddefnyddio dy ddata personol. Ni fydd yr hawliau hynny yn berthnasol ym mhob achos, a byddwn yn cadarnhau a yw hynny'n wir ai peidio pan fyddi'n gwneud cais. Yn gryno, dyma'r hawliau:

- Yr hawl i gael gwybod am sut y defnyddir dy wybodaeth bersonol;
- Yr hawl i gael mynediad at gopïau o'th wybodaeth bersonol;
- Yr hawl i gywiro os yw dy wybodaeth yn anghywir;
- Yr hawl i ddileu dy wybodaeth bersonol (mewn rhai amgylchiadau);
- Yr hawl i gyfyngu ar ein defnydd o'th wybodaeth bersonol;
- Yr hawl i gludadwyedd data;
- Yr hawl i wrthwynebu'r defnydd o'th wybodaeth bersonol.

Mae rhagor o fanylion am yr hawliau hyn ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO): https://ico.org.uk/

Os hoffet ti wneud cais i ddefnyddio unrhyw rai o'r hawliau hyn, anfon e-bost at diogelu.data@senedd.cymru. Gelli gwyno i'r Swyddog Diogelu Data os wyt ti'n anfodlon ar sut rydyn ni wedi defnyddio dy ddata. Mae'r manylion cyswllt i'w cael ar frig yr hysbysiad hwn.

Ar ôl cwyno, os byddi di'n parhau i fod yn anfodlon ar ein hymateb, gelli di hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae gwybodaeth am sut i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth i'w cael yn https://ico.org.uk/concerns/. Cyfeiriad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office,<br>
Wycliffe House,<br>
Water Lane,<br>
Wilmslow,<br>
Cheshire,<br>
SK9 5AF

Rhif y llinell gymorth: 0303 123 1113